# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 18 Mai 2017.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, Iwan Pughe Jones, William N Owen, Gwenfair E Rhys-Davies, Geraint Wigley, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Siôn Ifans, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen ac Aeron Pughe.

**17.30. Cofnodion cyfarfod 27 Ebrill 2017.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17.31. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.51.4. Cyflwr Cae'r Efail Llanwrin. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa ac eglurodd bod y tenant yn rhif 2 Cae'r Efail wedi gadael. Cadarnhaodd Cyng William N Owen fod y sbwriel I gyd wedi cael ei clirio. Cytunwyd ysgrifennu nodyn o ddiolch i Mr Paul Wenban, Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru, am ei cymorth gyda'r sefyllfa.
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf.
16.73.10. Problemau gyda gordyfiant coed ar y ffordd fawr ger Cwmlline. Ymddiheurodd y Clerc ei fod dim eto wedi clywed yn ol gan swyddogion yr Asiantaeth Cefnffyrdd.
16.74.3. Problemau gyda golau stryd ddim yn gweithio yn Nhalywern. Cadarnhaodd Cyng Geraint Wigley fod y goleuadau yn gweithio. Cytunwyd ysgrifennu nodyn o ddiolch i swyddogion y Cyngor Sir.
16.74.5. Problemau gyda gorsaf pwmpio Cwmlline. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod Mr Glyn Vaughan, Dolcorslwyn, wedi gofyn am rhagor o wybodaeth cyn cytuno'r gwaith gyda Dwr Cymru. Cytunwyd cadw llygad ar y datblygiadau.
17.22.1. Problemau gyda llwybr llithrig ger y cylchfan yng Nglantwymyn. Ymddiheurodd y Clerc fod y sefyllfa yma ddim eto wedi cael sylw.
17.29.2. Problemau gyda problemau ar gwaelod ffordd Cefn Coch, Glantwymyn. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi derbyn lluniau gan Cyng Paul Hughes ac ei fod wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir ynglyn y sefyllfa.
17.29.3. Arwydd cyflymder 30mya wedi torri ger Llanwrin. Cadarnhaodd Cyng William N Owen fod yr arwydd dal wedi torri. Cytunwyd gwasgu swyddogion y Cyngor Sir i thrwsio'r arwydd.

**17.32. Cynllunio.**
Dim.

**17.33. Eitemau i'w talu.**
33.1. Cyflog y Clerc am Mis Ebrill, Mis Mai a Mis Mehefin. Cytunwyd taliad o £750-00.

**17.34. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
34.1. Llywodraethwyr. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod yna aelod newydd o staff dros dro wedi cychwyn yn Ysgol Glantwymyn oherwydd fod un o'r staff llawn amser ar cyfnod o famolaeth.
34.2. Cyngor Sir Powys. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan, aelod lleol newydd y Cyngor Sir, mai Cyng Rosemarie Harris fydd arweinydd newydd Cyngor Sir Powys gyda cabinet newydd yn cynnwys chwech aelod Annibynnol a phedwar aelod y Ceidwadwyr. Eglurodd Elwyn mi fydd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Cynllunio.
34.3. Forwm Cleifion. Cafwyd adroddiad gan Cyng Gwenfair Rhys-Davies am cyfarfod diwethaf y Forwm Cleifion. Clywid fod Hazel Davis, Ysbyty Bronglais, wedi rhoi cyflwyniad i'r Forwm.

**17.35. Gohebiaeth.**

35.1. Llythr gan Ann Williams, Cwmlline, yn diolch I'r Cynghorwyr am eu cyfaillgarwch dros yr ugain mlynnedd diwethaf.

35.2. E-bost gan Liam Fletcher, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cau'r ffordd heibio'r hen ysgol yng Nghemaes yn ystod Mis Mehefin.

35.3. E-bost gan Mark Lewis, Llywodraeth Cymru, ynglyn a Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu.

35.4. E-bost gan Tim Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda manylion Phrosiect Gwaith Coed a Sefydlogi Llechwedd Pont Evans.

35.5. E-bost gan Paul Egan, Un Llais Cymru, ynglyn a fanylion Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

35.6. E-bost gan Robert Robinson, Cyngor Tref y Trallwng, gyda manylion cyfarfod nesaf SARPA.

35.7. E-bost gan Carol Williams, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

35.8. E-bost gan Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn edrych yn ol ar ei flwyddyn gyntaf yn y swydd.

35.9. E-bost gan Russell George AC gyda newyddion Mis Mai 2017.

**17.36. Unrhyw fater arall.**

36.1. Perygl defaid ar Comin Frongoch, Darowen. Gofynodd Cyng Iwan Pughe Jones os oedd yn bosib cael arwyddion "Perygl – Defaid" ar y ffordd heibio Comin Frongoch, Darowen. Cytunwyd gofyn i Cyngor Sir Powys codi arwyddion addas ar y ffordd heibio'r tir comin.

36.2. Problem gyda'r ffos uwchben Pont Ifans, Ceinws. Eglurodd Cyng Huw Williams bod y ffos uwchben Pont Ifans wedi cau ac mae'r dwr yn rhedeg i lawr y ffordd ac yn sefyll ar Pont Ifans. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw Cyngor Sir Powys.

36.3. Perygl ar hyd ochr y ffordd fawr ger Maesmachreth. Eglurodd Cyng Gwenfair Rhys-Davies fod yna amheuon am ochr y ffordd fawr i'r gogledd-dwyrain o Faesmachreth, Cemaes. Mae'r traffig ar y ffordd yna yn gyflym a does dim diogelwch os mae cerbyd yn gadael y ffordd fawr. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion Adran Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

36.4. Problemau gyda pobl yn byw ar safle cyferbyn a Lluest Wen. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod pobl wedi bod yn byw yn anghyfreithlon ar y safle cyferbyn Lluest Wen, Commins Coch, ers rhai blynyddoedd bellach ac mae'n debyg nid yw'r awdurdoadau wedi llwyddo gwneud dim byd am y sefyllfa. Cytunodd Cyng Elwyn Vaughan edrych i fewn i'r sefyllfa gyda swyddogion y Cyngor Sir.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 29 Mehefin 2017.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 3 Awst 2017.**